Y Gangen Rheoli Tir yn Gynaliadwy
Yr Is-adran Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a’r Strategaeth Wledig
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
ABERYSTWYTH
Ceredigion
SY23 3UR

25 Mehefin 2013

Annwyl Syr/Madam

**Ymateb i Ymgynghoriad: Dyfodol y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol (AWB)**

Diolch am ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru ynghylch dyfodol y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol. Gweler ein hymateb i gwestiynau’r ymgynghoriad isod.

**Cwestiwn 1**
**Pa un o'r tri dewis a amlinellir uchod fyddai orau gennych chi? Rhowch eich rhesymau os gwelwch yn dda.**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi opsiwn 2 - “**Deddfu er mwyn cadw swyddogaethau'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yng Nghymru**. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ynghyd â Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i weithio gyda sector amaethyddol deinamig a’i nod yw helpu i sefydlu gweithlu amaethyddol cadarn a chynaliadwy wedi’i hyfforddi’n dda yng Nghymru.

Credwn ei bod yn hanfodol sefydlu bwrdd cyflogau amaethyddol ar gyfer Cymru’n unig i ddiogelu isafswm cyfraddau tâl amaethyddol; hyrwyddo datblygu rhaglen hyfforddiant a datblygu gyrfa strwythuredig a diogelu amodau gwaith yn benodol ar gyfer sector amaethyddol. Rydym angen pobl yng nghefn gwlad i weithio’n ddoethach ym myd amaeth; neu ni fydd llawer o amcanion datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn dwyn ffrwyth. Mae potensial i Fwrdd Cyflogau Amaethyddol newydd a modern gyfrannu’n sylweddol at greu cymunedau gwledig cynaliadwy ar hyd a lled Cymru.

**Cwestiwn 2**
**Beth yn eich barn chi yw manteision posibl cael corff tebyg i'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol i sector amaethyddol Cymru?**

Ffermwyr sy’n rheoli rhan helaeth o Gymru wledig. Er mwyn sicrhau bod y gweithlu amaethyddol yn cyflawni yn erbyn y dull rheoli ar lefel yr ecosystem (Fframwaith Amgylchedd Naturiol – Ionawr 2012) mae’n bwysig sicrhau eu bod wedi’u hyfforddi’n dda ac yn frwdfrydig. Bydd manteision sefydlu bwrdd cyflogau amaethyddol ar gyfer Cymru’n unig yn diogelu isafswm cyfraddau tâl; yn hyrwyddo datblygu rhaglen hyfforddiant a datblygu gyrfa strwythuredig yn enwedig i ffermwyr ifanc sy’n ymuno â’r diwydiant ac yn diogelu amodau gwaith, yn benodol ar gyfer y sector amaethyddol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn ymateb i heriau’r dyfodol sy’n wynebu’r sector amaethyddol a Chyfoeth Naturiol Cymru. Ni fu’r cysylltiad rhwng diwydiant amaethyddol bywiog ac economaidd hyfyw, ac amgylchedd amrywiol ac iach, erioed mor bwysig. Byddai sefydlu corff tebyg i’r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yn cyfrannu’n sylweddol at economi wledig lwyddiannus ac amgylchedd iach yng Nghymru.

**Cwestiwn 3**
**Awgrymwch sut y gallai Bwrdd Cyflogau Amaethyddol cynghorol neu statudol wedi'i foderneiddio weithredu yng Nghymru o ran cefnogi'r sector amaethyddol a datblygu sgiliau yn y sector.**

Gwelwn Fwrdd Cyflogau Amaethyddol ymgynghorol neu statudol, wedi’i foderneiddio, ar waith yng Nghymru, mewn perthynas â chefnogi’r sector amaethyddol a datblygu sgiliau mewn modd symlach â llai o gostau. Gellir defnyddio’r byrddau cyflogau yn y gwledydd datganoledig eraill, Gogledd Iwerddon a’r Alban, yn fodelau ar gyfer datblygu Bwrdd Cyflogau Amaethyddol effeithiol, rhatach a mwy modern yma yng Nghymru .

**Cwestiwn 4**
**A ydych yn credu bod angen cadw Pwyllgor Cyflogau Amaethyddol ar wahân yng Nghymru? Rhowch eich rhesymau os gwelwch yn dda.**

Na. Gallai swyddogaethau’r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol wedi’i foderneiddio gwmpasu’r rôl hon, fel yn yr Alban ar hyn o bryd.

**Cwestiwn 5**
**A ydych yn credu bod angen cadw Pwyllgor Cynghori Anhedd-dai Amaethyddol ar wahân yng Nghymru? Rhowch eich rhesymau os gwelwch yn dda.**

Na. Gallai swyddogaethau’r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol wedi’i foderneiddio gwmpasu’r rôl hon, fel yn yr Alban ar hyn o bryd.

Cofiwch gysylltu ag Alun.L.Davies@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk os hoffech drafod unrhyw agwedd ar ein hymateb yn fanylach.

Yn gywir,



**CERI DAVIES**
Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio
Executive Director for Knowledge, Strategy & Planning
Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales
Ffôn/Tel: (029) 20466045
Ffôn symudol / Mobile: 07818008865
E-bost/E-mail: ceri.davies@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk ceri.davies@naturalresourceswales.gov.uk